**Dogfen Ymgynghorol ar y Papur Gwyn Awst 9 2017**
**Sylwadau Pellach gan Dyfodol i'r Iaith.**

Rydych chi wedi derbyn ein hymateb cychwynnol i'r Ddogfen Ymgynghorol a bydden-ni'n ddiolchgar pe baech yn ystyried hwnnw yn gefndir i'r sylwadau pellach hyn sydd wedi'u seilio yn bennaf ar eich cwestiynau ymgynghori.

Fe ddadleuon ni yn ein dogfen *Asiantaeth y Gymraeg*, a gyflwynwyd i chi yn Nhachwedd 2016, y dylai'r Asiantaeth yr oedden ni'n argymell ei chreu 'arwain polisi [a bod] yn gyfrifol am orolwg strategol' (para 2.1). Eich dewis chi yw cadw'r swyddogaeth yna o fewn Llywodraeth Cymru (LlC).

Cwestiwn 1: Rol Llywodraeth Cymru

Yng ngoleuni'ch penderfyniad bydd yn hanfodol i'r Adran Gymraeg o fewn LlC feddu ar

- arweinyddiaeth gref na fydd yn ddarostyngedig i newidiadau gwleidyddol gan fod llwyddo ym maes adfywiad ieithyddol yn dibynnu ar ddilyn polisïau cyson dros gyfnod estynedig o amser
- arbenigedd o safon uchel ym meysydd Dwyieitheg a Chynllunio Ieithyddol

Bydd angen i Adran y Gymraeg (is-adran ar hyn o bryd) feddu ar statws uchel a'r gallu i ddylanwadu ar benderfyniadau ar draws LlC a chyrff cyhoeddus eraill fel bod y bwriad i ddyrchafu'r Gymraeg yn hydreiddio pob agwedd ar bolisi cyhoeddus.

Mae hyn yn arbennig o wir am Addysg, sy'n gwbl sylfaenol i lwyddiant Strategaeth y Gymraeg. Nid mynd ar ofyn Adran Addysg ddylai Adran y Gymraeg ei wneud ond cyd-drafod ar delerau cyfartal yr hyn sy'i angen er mwyn cynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg hyfedr yn ôl strategaeth LlC o gael miliwn o siaradwyr erbyn 2050.

Bydd angen sefydlu perthynas agos a chydweithredgar rhwng Adran y Gymraeg a'r Comisiwn arfaethedig er mwyn

- rhannu ffrwyth ymchwil (para 53, bwled 4)
- defnyddio cysylltiadau rhyngwladol i ddatblygu polisïau a syniadau (para 49, bwled 7)
- ystyried penderfyniadau ar gyllido sefydliadau cyhoeddus er mwyn eu cysoni â gwahanol flaengareddau'r Comisiwn (para 53 bwled 3)

Cwestiwn 2 Adnoddau Ariannol

3.1 Cyfyngedig iawn yw'r wybodaeth am adnoddau sy i'w gael yn Nhabl 1 (t18), ac mae'r symiau a grybwyllir yn ymddangos yn dra annigonol gan fod rhai meysydd gweithredu wedi'u hepgor o'r tabl. Yn absennol ee mae cefnogaeth i sefydlu rhwydwaith o Ganolfannau Cymraeg, ymdrechion i greu tirwedd ieithyddol addas mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol a gweddill y wlad,

darparu gweithlu ieithyddol addas ar gyfer y cyfnod sylfaen. Os yw'r bwriad i adfywhau'r Gymraeg, gan greu miliwn o siaradwyr erbyn 2050 i'w gymryd o ddifrif, bydd rhaid wrth adnoddau ariannol sylweddol ee i ddatblygu'r gweithlu ym maes addysg statudol, addysg bellach ac uwch, mewn gwasanaethau cyhoeddus a phreifat ac yn ehangach ac i ddatblygu rhaglenni hyrwyddo effeithiol. Mae angen eglurder ar sut mae'r gwariant a ragwelir yn cyd-gysylltu â gwariant adrannau eraill y Llywodraeth. Mae'n bwysig bod ymrwymiadau i wariant ar wahanol agweddau'r Strategaeth yn cael eu gwneud yn ystod trafodaethau'r misoedd nesaf.

Cwestiynau 3-6 Swyddogaethau'r Corff hyd-braich

Rydyn-ni'n anghymeradwyo'r bwriad i gyfuno hybu a rheoleiddio (monitro a gorfodi cydymffurfiaeth) o fewn yr un corff. Er bod lle i gymorth ac anogaeth wrth sicrhau gweithredu'r Safonau, bydd angen dynesiad llymach ar adegau. O gadw rheoleiddio ar wahân i hybu, byddai modd serch hynny i rannu gwybodaeth â'r corff hybu i alluogi hwnnw i estyn cymorth er galluogi sefydliadau i gydymffurfio â gofynion statudol. O ran cost byddai modd rhannu llawer o orbenion (isadeiledd ffisegol ee).

Os gweithredir eich bwriad i gael un corff cyfunol (Comisiwn y Gymraeg), bydd angen mesurau arbennig i ofalu na fydd y gallu i orfodi cyrff i gydymffurfio â Safonau yn cael ei lastwreiddio mewn unrhyw fodd. Bydd angen i LlC ddangos yn glir sut y sicrheir hyn wrth i broses deddfu fynd yn ei blaen. Bydd angen eglurder hefyd ar rôl y Rheoleiddiwr a'r Comisiwn wrth ymwneud â busnesau mawr a bach a datblygu'r defnydd o'r Gymraeg yn y sector preifat.

Rydyn-ni hefyd yn anghymeradwyo'r argymhelliad (para 40 vi) mai 'LlC fydd yn gyfrifol am greu a gosod Safonau ar gyrff, ac am gyhoeddi canllawiau a chodau ymarfer. Mae hyn yn gam yn ôl sy'n peri i'r Gymraeg golli llais cynrychioliadol annibynnol cryf. Gan y Rheoleiddiwr a'r Comisiwn y bydd y wybodaeth a'r arbenigedd yn y meysydd hyn, mae'n debyg, a dylid nodi bod angen perthynas agos rhwng eu rôl hwy â'u dyletswydd i roi cyngor penodol i'r Llywodraeth ar osod Safonau ac am gyhoeddi canllawiau a chodau ymarfer.

Bydd angen i'r Comisiwn, yn ogystal ag Adran y Gymraeg LlC, feddu ar arbenigedd o safon uchel mewn Cynllunio Ieithyddol ac i benderfyniadau am brosiectau hybu adlewyrchu hynny. O gofio hynny, dylai swyddogaethau'r Comisiwn gynnwys cynghori LlC wrth i honno ddatblygu a manylu ar ei Strategaeth.

Yn benodol bydd angen i'r Comisiwn ofalu bod gwahanol brosiectau yn atgyfnerthu'i gilydd ac felly gyfrannu at lwyddiant Strategaeth y Gymraeg yn ei chyfanrwydd. Er enghraifft dylai wneud gwaith trwyadl ar arferion da ym maes yr iaith yn y cartref, creu marchnad lafur Gymraeg, sut i ddatblygu'r Gymraeg yn iaith y stryd, ac amodau llwyddiant y Canolfannau Cymraeg a'r Mentrau Iaith.

Tasg allweddol i'r Comisiwn fydd comisiynu gwaith ysgolheigaidd ar Ymwybyddiaeth Ieithyddol a fydd yn sail wedyn i ymgyrchoedd hysbysebu a

gwybodaeth. Mae'n hanfodol bod dealltwriaeth yn cael ei lledaenu o fewn gwahanol sectorau a sefydliadau ynghylch (i) pwysigrwydd datblygu'r Gymraeg yn iaith genedlaethol o bwys a (ii) beth yw'r camau y mae angen eu cymryd er mwyn llwyddo.

Mae effaith penderfyniadau ym maes Cynllunio Gwlad a Thref yn fater tra dadleuol ond mae'n sicr y gall fod penderfyniadau felly yn fawr eu dylanwad ar safle gymunedol y Gymraeg. Mae trefniadau cyfredol yn ein barn ni yn gwbl anfoddhaol. Mae cyfle drwy'r Ddeddf Iaith newydd arfaethedig i greu strwythur mwy boddhaol. Ein hargymhelliad ni yw y dylid rhoi i Reoleiddiwr y Gymraeg (naill ai adran o fewn y Comisiwn neu i'r Comisiynydd ar wahân) y pŵer i ddyfarnu ar effaith ieithyddol penderfyniadau Cynllunio, megis datblygiadau diwydiannol a chodi tai. Byddai'r pŵer yma yn gyffelyb i adran reoleiddiol Cyfoeth Naturiol Cymru ym maes yr amgylchedd naturiol.

<u>Cwestiwn 7</u>

Dim sylwadau

<u>Cwestiynau 8-10 Llywodraethiant</u>

Rydyn-ni'n cefnogi'n frwd y bwriad i sefydlu corff hyd-braich, sef Comisiwn y Gymraeg, ond wedi nodi ein pryderon a'n hawgrymiadau uchod. Mae angen i'r Comisiwn fod â gorolwg cyffredinol a bod yn bartner cydradd yn yr holl agweddau sy'n ymwneud â pholisïau'r Gymraeg.

I hwyluso'r newid i drefn Comisiwn, o'r drefn bresennol, byddai'n llesol cadw at y Safonau sydd wedi'u derbyn gan awdurdodau lleol ac eraill, fel na fydd angen adolygu'r rhain yn y tymor byr.

Rydyn-ni'n cefnogi Opsiwn 3

<u>Cwestiwn 11</u>

Dim sylwadau

<u>Cwestiwn 12 Bil y Gymaeg</u>

Cytuno

<u>Cwestiwn 13 Adrodd i'r Cynulliad</u>

Er ein bod yn gweld synnwyr mewn cyhoeddi adroddiad pum-mlynyddol ar gynnydd Strategaeth y Gymraeg, bydd angen adrodd ar yr hyn a wnaed i roi'r strategaeth ar waith bob blwyddyn yn ogystal. Fel gyda phob cynllun gweithredu manwl, mae angen adroddiadau blynyddol a fydd yn gallu esgor ar gynlluniau gwella, amrywio pwyslais a materion eraill y bydd angen rhoi sylw iddynt o fewn y pum mlynedd. Bydd aros am bum mlynedd cyn cael adroddiad yn rhoi bwlch gormodol rhwng adrodd a gweithredu.

Cwestiwn 14 Cynllun Pum Mlynedd

Cytunwn â'r angen am gynllun pum mlynedd, ond mae angen gwybod sut bydd adroddiadau blynyddol y Llywodraeth a'r Comisiwn yn bwydo i'r cynllun pum mlynedd. Gall hyn olygu y bydd angen hyblygrwydd o fewn y cynllun pum mlynedd, fel bod modd adweithio i ddatblygiadau, boed yn dueddiadau poblogaeth, yn ddatblygiadau technegol ac ati.

Cwestiynau 15-16 Cyngor Partneriaeth y Gymraeg

Os yw Cyngor Partneriaeth y Gymraeg i gael ei ddiddymu, dylai fod **gofyn** ar LlC i gael cyngor gan y Comisiwn, nid dim ond **pŵer** i wneud hynny.

Cwestiynau 17-18 Diwygio'r Safonau

Ar y cyfan rydyn-ni'n gefnogol i'r model diwygiedig o'r Safonau. Fodd bynnag, nid ydym am weld oedi cyn bod set newydd o Safonau'n cael eu datblygu yn y system newydd. Gan fod nifer helaeth o gyrff wedi derbyn y Safonau presennol, dylid cadw at y rhain rhag peri dryswch ac amheuaeth.

Cwestiwn 19 'Safonau' a 'dyletswyddau cynllunio ieithyddol'

Rydyn-ni cytuno bod gwahaniaethu yn y modd yma yn synhwyrol. Y cwestiwn sy'n codi fodd bynnag yw beth fydd grym cyfreithiol y dyletswyddau statudol. Maen-nhw'n gwbl allweddol i'r math o newid diwylliant mewn cyrff cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat y mae'n rhaid wrtho er mwyn dyrchafu safle'r Gymraeg. Bydd angen egluro hyn yn nhrafodaethau'r misoedd nesaf.

Cwestiwn 20 Addysg

Cytuno yn bendant iawn ond mae ein sylw dan Gwestiwn 19 yn berthnasol

Cwestiwn 21 Dyletswydd Ychwanegol

Dylai fod yn ddyletswydd ar gyrff i greu yr hyn sy'n cael ei alw'n 'dirwedd ieithyddol' sy'n ffafrio'r Gymraeg. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r sector adwerthol - o ran arwyddion, hysbysiadau a gwasanaeth llafar dros-y-cownter. Mewn ardaoledd lle mae'r Gymraeg yn iaith gymunedol amlwg, dylid rhoi blaenoriaeth i'r Gymraeg

Cwestiwn 22 Ymchwiliadau

Cytuno

Cwestiwn 23 Monitro a chefnogi yn lle gorfodi

Anghytuno. Gw y sylwadau uchod. Rhaid bod o leiaf bwysau os nad gorfodaeth i weithredu'r dyletswyddau cynllunio ieithyddol.

Cwestiwn 24 LlC yn gosod Safonau

Rydyn-ni'n cytuno'n bendant â'r angen i leihau nifer y camau a symleiddio'r broses o wneud a gosod Safonau. Ein barn ni serch hynny yw mai'r Comisiynydd/ Adran reoleiddio'r Comisiwn ddylai arwain ar hyn. Byddai hyn yn gwarchod annibyniaeth y broses ac yn manteisio ar arbenigedd y Comisiwn. Gellid gwneud fel a ganlyn

- y Comisiwn i lunio Safonau ac yn ymgynghori
- LlC yn rhoi'r Safonau ar ffurf rheoliadau deddfwriaethol ac
- yn eu cyflwyno i'r Cynulliad i'w trafod a'u pasio

Cwestiwn 25 Ymgynghoriad Cyhoeddus

Gall ymgynghoriad cyhoeddus olygu proses hir a chymhleth, a allai gael ei gamddefnyddio. Dylai sylw pwyllgor craffu'r Cynulliad fod yn ddigonol.

Cwestiwn 26 Ymchwiliadau Safonau

Cytuno

Cwestiwn 27 Codau Ymarfer

Anghytuno. Gw ateb i Gwestiwn 24

Cwestiwn 28 Sectorau cyfain

Cytuno

Cwestiwn 29 Gosod Safonau ar Lywodraeth Cymru

Ein hawgrym ni yw i'r Comisiwn lunio a gosod y Safonau a bod Pwyllgor perthnasol o'r Cynulliad yn eu trafod a'u cymeradwyo. Byddai hyn yn lleihau'r perygl (i) bod y Comisiwn yn ofn brathu'r llaw sy'n ei fwydo (ii) bod plaid y Llywodraeth yn dylanwadu ar ei haelodau etholedig i wanhau'r gofynion.

Cwestiynau 30-31 Cwyno i'r Comisiwn

Mae'n briodol bod person yn cwyno'n uniongyrchol i gorff perthnasol, a mynd wedyn at y Comisiwn os na chaiff ei fodloni. Fodd bynnag, dylai hi hefyd fod yn bosibl cwyno at y Comisiwn, a dylai fod gan y Comisiwn y dewis o ddelio â'r gwyn trwy system gyflym, neu os na cheir bodlonrwydd, a bod y mater o arwyddocâd cyffredinol, dylai fod gan y Comisiwn hawl i gynnal ymchwiliad trylwyr. Yn yr achos olaf mae arbenigedd ynghylch hawliau a materion perthnasol yn fwy tebyg o fod i'w cael yn y Comisiwn nag mewn corff cyhoeddus neu breifat

Cwestiwn 32 Difrifoldeb Cwynion

Cytuno, ond bydd angen diffinio'n gadarn ystyr 'difrifol' ar linellau tebyg i'r hyn sydd ym mhara 219

Cwestiwn 33 Y Comisiwn yn cynnal ymchwiliad

Cytuno. Mae hwn yn bŵer allweddol yn wyneb y ffaith fod cwyno gan ddinesydd yn broses drafferthus a chymhleth. Rhaid i'r Comisiwn fod yn rhagweithredol wrth fynnu bod Safonau yn cael eu parchu

Cwestiwn 34 Camau gweithredu

Cytuno

Cwestiwn 35 Dirwyon

Mae dirwy o £5000 yn chwerthinllyd o isel yng nghyd-destun cyllidebau cyrff cyhoeddus. Fyddai mwyafswm o £50,000, gan ystyried yr hyn sy'n gymesur a rhesymol, ddim tamaid yn ormod.

Cwestiynau 36-37 Y Tribiwnllys

Cytuno, yng ngoleuni'r angen i osgoi adolygiad barnwrol

Cwestiynau 38-39 Rheswm dros wneud cais

Cytuno

Cwestiwn 40 Rhan 3

Dim sylwadau ychwanegol

Cwestiynau 41-43 Dileu'r cyfyngiadau

Rydyn-ni croesawu'r bwriad i alluogi LlC i estyn ei phŵer statudol i'r sector preifat. Rhaid cofio bod y sector breifat yn rhan amlycach o brofiad dyddiol pobl nag yw hyd yn oed gyrff cyhoeddus. Dylai dyrchafu'r Gymraeg ee yn y sector adwerthol, gan gynnwys gwasanaeth dros-y-cownter fod yn uchel ymysg blaenoriaethau'r Comisiwn. Adran y Gymraeg LlC. Bydd angen cyfuniad o gymorth, cyngor, pwysau a gorfodaeth, yn ôl yr amgylchiadau, i newid diwylliant y sector a chreu 'tirwedd ieithyddol' sy'n ffafrio'r Gymraeg

Cwestiynau 46-48 Asesu effaith y cynigion

Yr hyn sy'i angen yw creu cylch rhinweddol o ffactorau a fydd yn hyrwyddo defnydd cynyddol o'r Gymraeg, gan gynnwys twf mewn addysg Gymraeg, cyfloedd i'w defnyddio yn y gymdeithas a'r gweithle, amlygrwydd yr iaith yn yr amgylchedd, anogaeth i'w defnyddio o fewn y teulu normaleiddio gwasanaeth Cymraeg yn y sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat a chyfleodd gyrfaol

Cymraeg. Cydgordio'r holl ffactorau hyn fydd camp y trefniadau sefydliadol a'r fframwaith gyfreithiol y mae'r Papur Gwyn hwn yn eu hamlinellu.

Serch bod amgylchiadau cyllidol yn anodd bydd rhaid wrth adnoddau ariannol sylweddol yn gefn i fwriadau da Llywodraeth Cymru.